


Rhif sylw 928 - Mrs Vera Jones [3113]

Nantlle – Map / Inset 77

Hoffwn yn y ddogfen hon amlinellu, yn gryno, pam yr ystyrir rhan o'r Cynllun yn anniogel. Teimlir bod y ffiniau newydd arfaethedig ar Fap /Inset 77 heb eu ystyried yn llawn, ac o'r herwydd ddim yn mynd i allu ddiwallu anghenion tai lleol yn gyflawn.

Gwrthwynebiadau.

1. Mae nant yn rhedeg o dan y rhan o'r safle newydd arfaethedig(wedi ei ddynodi gan Y ar y map isod). Gweler ar y map isod (o weithredoedd Mrs V. Jones) llwybr y nant o'r chwarel o dan rhan o'r lleoliad arfaethedig. Gwelir hefyd y manau wedi eu lliwio mewn melyn sydd angen hawl 'easement' yn ôl y gweithredoedd gwreiddiol. Petai unrhyw adeilau ar y man yma ni buasai modd cael mynediad hawdd i twnel y nant o dan y tir.
2. Posiblirwydd o lygru y tir i'r de pe byddai adeiladu yn digwydd ar y rhan yma o'r pentref.
3. Llifogydd wedi eu cael yn y gorffennol yn y barics (safle i'r gogledd a ddynodir gan X isod)
4. Adeiladu ar ardd o flaen un o dai pwysicaf yr ardal os nad Gwynedd, sef Ty Mawr (Plas Nantlle). Honnir mai yma oedd llys ewythr Llywelyn ein Llyw Olaf, Einion ap Tewdur sef safle Llys Baladeulyn.
5. Ar y gwrthwynebiad gwreiddiol nodwyd bod llwybr cyhoeddus yn mynd drwy'r rhan o'r safle arfaethedig(Y).
6. Buasai adeiladu yma yn cynnyddu ar lefel trafndiaeth drwy y pentref
7. Dim gofyn gan ddeiliaid y tir, felly dim gwarant y buasai y man yn cael ei ddefnyddio at ddibenion tai lleol.



Safle amgen

1. Dim trafferthion gyda unrhyw rwystrau odditan y tir.
2. Llecyn i'r de o Swn y Nant gyda digonnedd o le i ddatblygu hyd at 6 tŷ.
3. Mynediad i'r safle yn rhwydd. Adwy yn bodoli. Gweler llun isod.



4. Mae tŷ ar y safle amgen yn barod (Swn y Nant) sy'n profi dilysrwydd y safle.
5. Buasai ymestyn y ffin i'r de at ymyl yr arwyddion 30 (neu pellach) yn Cynnyddu stoc tai ofynol y pentref yn hawdd.
6. Mae gofyn yma gan ddeiliaid y tir, felly buasai ymestyn y ffin i'r de ymhellach, yn sicrhau y buasai datblygiad yn digwydd.
7. Mae galw yn lleol am dai newydd o ansawdd.

Lluniau o'r safle



Y safle yn edrych i'r gogledd



Yn edrych tua'r gogledd orllewin



Yn edrych tua'r dwyrain




Safle amgen i'r de o Swn y Nant

Perthnasedd y safle i'r ffin cyflymder 30



Llun 1



Llun 2



Llun 3

Gwelir o'r lluniau uchod bod y safle yn glir o fewn ffin cyflymder 30 y pentref (Llun 1). Mae'r ffin newydd arfaethedig yn lefel a chefn y sied uchod (Llun 2), ond fel dengys llun 3 mae y ffin cyflymder 30 yn 10 medr i'r de.

Newidiadau y gofynnir amdanynt



Dilwyn Jones [2872]